# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Rhagfyr 2016

Amser: 14.00 - 16.11

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3905

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC |
| Tystion: | James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Llywodraeth Cymru<br>Matthew Quinn, Llywodraeth Cymru<br>James Morris, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas<br>Andy Phillips<br>Nick Selwyn |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 965KB) Gweld fel HTML (220KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar a Lee Waters. Ni chafwyd dirprwyon.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:

**Sesiwn ymadawol** - Y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol yn gofyn am eglurhad o wir gost mesurau gwrth-dwyll ac nid dim ond adnoddau staff yr Uned Gwrth-Dwyll.

**Maes Awyr Caerdydd** - Y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth ychwanegol ar Cardiff Aviation Limited ac yn benodol yr ymarfer diwydrwydd dyladwy a gynhaliwyd yn 2012.

**Kancoat** - Y Cadeirydd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn a oedd y risg o fod yn ddibynnol ar un cyflenwr wedi'i nodi, ac a gymerwyd camau lliniaru mewn perthynas â hyn. Mae'r Pwyllgor hefyd yn dymuno cwestiynu'r weithdrefn diwydrwydd dyladwy o ystyried ei fod yn seiliedig ar brisiad 2011 a bod y swyddog diwydrwydd dyladwy wedi awgrymu y dylid comisiynu prisiad newydd.

**Dyled hanesyddol Llywodraeth Cymru** - Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y mater hwn yn ei waith craffu ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2016-17 yn ystod hydref 2017. Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i gynnal rhai gwiriadau ynghylch tarddiad y ddyled a chynghori'r Pwyllgor yn unol â hynny.

2.1 Sesiwn ymadawol: Gwybodaeth ychwanegol gan Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru (24 Tachwedd 2016)

2.2 Maes Awyr Caerdydd: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (28 Tachwedd 2016)

2.3 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (28 Tachwedd 2016)

2.4 Llywodraeth Cymru yn cyllido Kancoat Cyf: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (29 Tachwedd 2016)

2.5 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Gwybodaeth ychwanegol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (28 Tachwedd 2016)

2.6 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (29 Tachwedd 2016)

2.7 Dyled hanesyddol Llywodraeth Cymru: Llythyr oddi wrth Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid (29 Tachwedd 2016)

2.8 Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (30 Tachwedd 2016)

2.9 Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Parodrwydd ar gyfer cyflwyno pwerau cyllidol

## 3 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar waith James Price, Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, yr Economi, Sgiliau a Grŵp Adnoddau Naturiol, Matthew Quinn, Cyfarwyddwr, Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy a
James Morris, Pennaeth Tîm Erydu Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordirol, Llywodraeth Cymru ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.
Cytunodd James Price i:

- Anfon nodyn ar y posibilrwydd y gallai caniatâd cynllunio yn y dyfodol gynnwys cyfyngiadau ar ddatblygwyr i blannu coed, cyfyngu ar y defnydd o bafin bloc er enghraifft, i leihau effaith llifogydd.
- Anfon nodyn ar y realiti bod adeiladu wedi digwydd ar dir gwael agored i lifogydd a bod posibilrwydd y bydd datblygiadau pellach yn digwydd yn y dyfodol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd a chytunwyd i gyhoeddi adroddiad byr yn dilyn eu sesiynau tystiolaeth.

## 6 Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

6.1 Derbyniodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar adroddiad diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.
6.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd ac ar ôl ystyried eu hymatebion, yn ystyried a ddylid cynnal sesiynau tystiolaeth lafar ar y mater hwn.

## 7 Dull strategol cynghorau o greu incwm a chodi tâl: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

7.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ar adroddiad diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru ar ddull strategol cynghorau i greu incwm a chodi tâl.
7.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn dystiolaeth ar y mater hwn yn ystod gwanwyn 2017.

## 8 Arlwyo mewn Ysbytai a Maeth Cleifion: Y Prif Faterion

8.1 Cafodd y papurau eu nodi.
8.2 Cytunodd yr Aelodau i gyhoeddi eu canfyddiadau mewn adroddiad byr.